**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS**
**DEDDF PRIFFYRDD 1980**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(GWYRO CILFFORDD GYFYNGEDIG 76 MAESTEG)**
**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2023**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ('Deddf 1980') oherwydd ei bod yn ymddangos i'r awdurdod, er budd perchnogion y tir y mae'r Gilffordd Gyfyngedig, a ddisgrifir ym mharagraff 1 y gorchymyn hwn, yn ei groesi a'r cyhoedd, y byddai'n fuddiol gwyro llinell y ffordd.

Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i dalu unrhyw iawndal a ddaw yn daladwy o ganlyniad i'r gorchymyn hwn yn dod i rym ac unrhyw dreuliau a achosir i ddod â safle newydd y ffordd i gyflwr addas i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

Drwy'r Gorchymyn hwn:

1. Rhaid cau'r hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn Fferm Ffos, Maesteg ac a ddangosir â llinell barhaus drom ar y map sydd wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ymhen 28 diwrnod i ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Ar ddiwedd 28 diwrnod, o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn, rhaid cael Cilffordd Gyfyngedig dros y tir yn Fferm Ffos, Maesteg a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac a ddangosir â llinell doredig drom ar y map sydd wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**

**RHAN 1**
**DISGRIFIAD O SAFLE LLWYBR NEU FFORDD BRESENNOL**
**I GAEL EI GWYRO**

Mae'r rhan o Gilffordd Gyfyngedig 76 Maesteg sydd i gael ei gwyro yn cychwyn wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 87409160), ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad dwyrain de-ddwyreiniol am oddeutu 21 metr hyd at Bwynt B (Cyf. Grid SS 87429105), gan barhau yn gyffredinol i gyfeiriad de de-orllewinol am tua 53 metr hyd at Bwynt C (Cyf. Grid SS 87409100).

Hyd y Gilffordd Gyfyngedig sydd i gael ei gwyro yw 74 metr yn fras gyda'i lled rhwng 2.5 metr a 10 metr.

**RHAN 2**
**DISGRIFIAD O SAFLE**
**LLWYBR NEU FFORDD WAHANOL**


Mae'r llwybr yn cychwyn wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid. SS 87409160), ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad de de-orllewinol am oddeutu 46 metr hyd at Bwynt D (Cyfeirnod Grid SS 87399101), yna mae'n parhau i gyfeiriad dwyrain de-ddwyreiniol am tua 14 metr hyd at Bwynt E (Cyf. Grid SS 87409101), cyn parhau i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am tua 9 metr i ymuno ag aliniad presennol Llwybr Ceffylau 76 Maesteg a Llwybr Troed 36A Maesteg wrth Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 87409100).

Hyd y Gilffordd Gyfyngedig o'r naill ben i'r llall yw 69 metr neu oddeutu hynny gyda lled o 3 metr ac fe'i dangosir â llinellau byrion du trwm ar Fap y Gorchymyn rhwng y pwyntiau y cyfeiriwyd atynt.

Gosodwyd Sêl Gyffredin
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
yn y fan hon ar y dydd o 2023
ym mhresenoldeb:-

……………………………………………………. Llofnodwr Awdurdodedig

E34-900/HIG001-0898




**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**COMMUNITIES DIRECTORATE**

*Corporate Director Communities*

Civic Offices
Angel Street
Bridgend CF31 4WB
Telephone (01656) 643643

**PUBLIC PATH DIVERSION ORDER**
**HIGHWAYS ACT 1980**

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (DIVERSION OF RESTRICTED BYWAY 76 MAESTEG) PUBLIC PATH DIVERSION ORDER NO.1 2023**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence Number: 100023405, 2011.

Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The Geo Information Group 2010

N W E S

Scale 1:1250